

# SL(6)009 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu bod Cymru gyfan yn symud i Lefel Rhybudd 1. Mae hyn yn golygu bod y cyfyngiadau a'r gofynion yn Atodlen 1 i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn) yn gymwys yng Nghymru o 6.00am ar 7 Mehefin 2021.

Mae Atodlen 1 yn nodi cyfyngiadau a gofynion sy'n ymwneud, er enghraifft, â:

- chynulladau yng nghartrefi pobl;
- cynulladau yn yr awyr agored;
- cynulliad mewn llety gwyliau;
- presenoldeb mewn priodasau, angladdau ac addoldai;
- cymryd rhan mewn cynulladau a drefnir gan glybiau ac elusennau;
- trefnu digwyddiadau;
- awdurdodi digwyddiadau gan Weinidogion Cymru;
- cau rhai busnesau fel clybiau nos a ranciau sglefrio iâ.

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020, gan gynnwys Atodlen 1, ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2020/1609/contents/2021-05-17>.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.



## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyriad posibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur.*

*Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.*

*Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwysu unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.*

*Mae'r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau â'r hawliau unigol hynny."*

### **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*



### **3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn nad yw'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cyfeirio at asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, i gyhoeddi adroddiadau ar yr asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

### **Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:**

Ar ôl pob cyfnod adolygu, caiff Asesiad Effaith Cryno ei lunio, ei gyfieithu a'i gyhoeddi. Mae hwn yn ymdrin â'r meysydd a ganlyn:

- Effaith ar Lesiant
- Asesiad o'r Effaith ar yr Economi
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (os yw'n gymwys ac os nad yw'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymdrin â hyn yn llawn)
- Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Dynol
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Gellir dod o hyd i'r holl Asesiadau Effaith Cryno ac Asesiadau Effaith unigol ad-hoc ychwanegol ar <https://llyw.cymru/asesiadau-o-ffaith-coronafeirws>.

Bydd yr Asesiad Effaith Cryno sy'n ymdrin â'r Rheoliadau hyn yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd y cyfnod adolygu hwn ar 24 Mehefin.

## **Trafodaeth y Pwyllgor**

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 14 Mehefin 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

